Sicrhau darpariaeth gyson yn ACT

Mae'n her i ddarparwyr ddarparu profiad cyson i ddysgwyr ar draws a rhwng partneriaid. Mae ACT wedi gweithredu gweithgor arferion da i fynd i'r afael â hyn.

Pwrpas y gweithgor arferion da yw rhannu enghreifftiau o arfer gorau ar draws yr holl ddarparwyr i sicrhau profiad digidol rhagorol cyson i bob dysgwr. Mae hefyd yn gyfle i amlygu atebion digidol posibl i broblemau presennol. Er enghraifft, cyflwyno ap ID newydd ACT i'r Rhwydwaith; darparwyd hyn fel ateb i'r broblem o ofyn am gopïau caled o ddogfennau gan ddysgwyr, a rhoddodd gyfle i'r Rhwydwaith ofyn cwestiynau ac awgrymu newidiadau.

Mae ACT hefyd yn defnyddio'r grwpiau fel cyfle i gasglu adborth ac ymatebion i gyhoeddiadau ac adroddiadau diwydiant, er enghraifft, Adroddiad TechNation 2018.

Mae gan bob sesiwn thema, er enghraifft, roedd un cyfarfod yn 2018 yn canolbwyntio ar wella Hygyrchedd Digidol. Mae hyn yn annog y Darparwyr yn y Rhwydwaith i baratoi cyfraniadau perthnasol, a gwahoddir siaradwyr gwadd arbenigol i hwyluso trafodaeth.